Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Chwarae Cyn-ysgol Amlwch
**Y Neuadd Goffa**
**Amlwch**
**Ynys Môn**
**LL68 9ET**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2016**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/04/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg yw Cylch Chwarae Cyn-ysgol Amlwch, sydd wedi ei leoli yn y Neuadd Goffa, Amlwch, yn awdurdod lleol Ynys Môn. Mae'r lleoliad ar agor am bump bore'r wythnos ac mae ganddo dri aelod o staff llawn amser. Mae ganddo ddefnydd hollol o ystafell fawr yn yr adeilad.

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 24 o blant mewn sesiwn. Mae'n derbyn plant o ddwy flwydd i bedair oed. Ar adeg yr arolygiad, mynychodd 12 o blant, dau ohonynt yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac mae ychydig iawn yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Ar hyn o bryd, mae ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinydd ei swydd ym mis Medi 1998. Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf ym mis Ionawr 2014. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2010.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Da |
|---|---|
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Er bod angen gwella agweddau o'r addysgu ac asesu, mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- profiadau dysgu, sy'n cael eu cynllunio'n dda ar y cyfan
- perthnasoedd cadarnhaol rhwng oedolion a phlant
- cydweithrediad yr holl staff gyda'i gilydd
- gofal y plant, sy'n ddiwyd
- defnydd llwyddiannus o adnoddau tu mewn i'r adeilad
- partneriaethau pwrpasol gyda'r gymuned leol a'r rhieni a gofalwyr

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- ymwybyddiaeth briodol gan arweinwyr bod cynllunio strategol effeithiol yn gwella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- y cynllun datblygu'n nodi'n gywir beth sydd angen gwella
- systemau hunanarfarnu yn arferion rheolaidd, sy'n cefnogi datblygiadau a gwelliannau
- awydd gan yr arweinyddiaeth i ddefnyddio cymorth wrth asiantaethau allanol i wella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- parodrwydd yr arweinyddiaeth a'r staff i godi arian wedi gwella'r adnoddau dros amser

## Argymhellion

A1 Gwella cyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh)

A2 Herio plant unigol yn unol â'u galluoedd

A3 Cwblhau asesiadau rheolaidd sy'n arwain yn uniongyrchol at y camau nesaf yn dysgu'r plant

A4 Sicrhau bod cyflwyniadau'n cyfatebu'n briodol i oedran y plant

A5 Datblygu a chyfoethogi'r adnoddau a'r profiadau yn yr ardal allanol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Dim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae’r lleoliad yn darparu ystod addas o weithgareddau diddorol ar gyfer plant ar draws pob maes dysgu. Mae'r cynllunio’n bodloni athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Mae’r staff yn cyd-gynllunio'r cwricwlwm ac mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n bwrpasol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol llawer o blant. Mae’r cynllunio’n targedu anghenion y rhan fwyaf o blant yn synhwyrol ac mae’r staff yn herio’r rhan fwyaf o blant yn bwrpasol i gyflawni ar eu gorau. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio o dasgau heriol i'r plant mwy galluog yn effeithiol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd yn gydlynol. Mae’n ategu at brofiadau dysgu’r plant yn llwyddiannus. Mae tasgau ysgrifennu cynnar a gweithgareddau rhifyddeg pen yn ysgogi’r plant yn dda. Maent yn effeithio safonau’n llwyddiannus ym mhob maes dysgu. Nid yw’r ddarpariaeth ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mor gryf ac mae’r cyfleoedd i ddefnyddio’r offer technolegol yn anghyson.

Mae’r staff yn defnyddio’r amgylchedd dan do yn dda i annog plant i brofi profiadau newydd, sy’n datblygu eu medrau meddwl annibynnol yn effeithiol. Er enghraifft, trwy chwarae â thywod, arbrofi â nwdlau, dawnsio â rhubanau a chwarae rôl yn y bwyty Tsieineaidd. Nid yw’r defnydd o’r ardal allanol mor effeithiol.

Mae plant yn ymweld â lleoedd tu allan i'r lleoliad fel mynd â'r plant ar deithiau trên ac i ffermydd lleol. Mae hyn wedi'i gynllunio'n dda ac yn cael ei gynnal bob blwyddyn, fel bod pob plentyn yn profi yr un cyfleoedd i ddysgu am eu hardal leol. Mae'r plant yn dysgu'n bwrpasol oddi wrth bobl sy'n ymweld â'r lleoliad fel nyrsys deintyddol ac aelodau o'r gwasanaethau brys.

Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd cadarn i blant i ddatblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol. Maent yn dathlu ac yn dysgu’n llwyddiannus am wyliau Cymru fel Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Santes Dwynwen. Hefyd, maent yn ymchwilio a thrafod yn ystyrlon am ddiwylliannau eraill, fel Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali. Mae'r holl oedolion yn cyfathrebu'n briodol gyda'r plant yn y Gymraeg.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan yr holl staff y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plant ac maent yn wybodus am ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas gadarnhaol rhwng yr holl staff a'r plant. Mae gan staff rôl briodol wrth gynllunio'r cwricwlwm ac mae'r defnydd gorau'n cael ei wneud o'u harbenigedd. Fodd bynnag, nid yw’r staff yn ysgogi plant yn llwyddiannus yn ystod gweithgareddau ffocws i sicrhau bod plant unigol, yn enwedig y plant mwy galluog, yn cael eu herio'n briodol yn unol â'u galluoedd.

Mae pob aelod o staff yn bositif wrth i blant gyrraedd ac maent yn parhau gyda’r brwdfrydedd hwn trwy gydol y sesiwn. Mae’r staff yn cydweithio'n effeithlon. Maent yn rhoi’r cyfle i bob plentyn i ddewis yn synhwyrol rhwng gweithgareddau a arweinir gan oedolion a gweithgareddau a arweinir gan blant. Er hynny, mae staff yn tueddu i ymyrryd gormod ac nid ydynt yn caniatáu i blant ddatblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus. Mae staff yn rheoli ymddygiad plant yn gadarnhaol, yn ddiogel ac yn effeithiol. Fodd bynnag, mae ymddygiad ac ymroddiad y plant iau yn effeithio ar ddysgu’r plant hŷn yn andwyol yn ystod cyflwyniadau i dasgau ac amser stori.

Mae’r staff yn modelu iaith yn briodol er mwyn datblygu sgiliau meddwl a chyfathrebu’r plant. Mae’r staff yn annog y plant i werthuso’n synhwyrol wrth iddynt drafod storïau a disgrifio'r hyn y maent wedi ei greu fel patrymau gyda nwdlau. Yn yr adeilad, mae'r staff yn darparu amgylchedd diddorol sy'n sicrhau’n llwyddiannus bod yr holl blant yn cymryd rhan ac yn mwynhau. Fodd bynnag, nid yw'r addysgu yn yr awyr agored yn ysgogol oherwydd pryderon gyda'r ardal allanol.

Mae gweithdrefnau asesu priodol yn bodoli. Mae staff yn cwblhau'r cofnodion o gyflawniadau'r plant yn addas. Nid yw pob un o'r staff yn cwblhau asesiadau dyddiol yn rheolaidd a chyson. Felly, nid yw’r asesiadau yn arwain, gyda digon o fanylder, i dargedau plant unigol a'r camau nesaf yn eu haddysg. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn dda am gyflawniadau eu plant ac mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw adeg.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli i gefnogi iechyd a lles plant. Mae’r trefniadau hyn yn cyfrannu’n dda at ddatblygiad a lles cyffredinol y plant ac yn cefnogi eu dysgu’n effeithiol. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd cadarnhaol i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant.

Mae'r lleoliad yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn llwyddiannus. Mae cyfleoedd gwerthfawr ar gael i blant fyfyrio, trafod teimladau, dweud diolch a gweddïo'n ddyddiol. Mae hyn yn amlwg wrth iddynt gymryd eu tro yn gwrtais wrth fwyta byrbrydau ac yfed diod o amgylch y byrddau bwyta. Mae gan y lleoliad drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'r plant yn ailgylchu papur, cardbord a phlastig. Mae hyn yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol, sy'n dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Fodd bynnag, mae ymddygiad ambell blentyn iau yn amharu ar yr addysgu a'r dysgu mewn gweithgareddau torfol fel darllen stori. Mae plant yn hapus ac yn ddiogel yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac maent yn aml yn gofyn am gymorth a chefnogaeth. Mae gan y staff cymwysterau da a phrofiad helaeth ac mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol. Mae arbenigedd staff yn cael ei ddefnyddio'n dda wrth oruchwylio gweithgareddau.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn ddiogel, mae'r drws allanol ar gau a dim ond aelod o staff sy'n ei agor. Mae gât wedi bolltio yn atal plant adael yr ystafell. Ni all unrhyw un ddod mewn a ni all unrhyw blentyn adael heb gwmni. Mae'r staff yn ofalus wrth i blant cael eu casglu o'r ystafell. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant o dan ofal eu rhieni neu ofalwr cyfarwydd ar ddiwedd pob sesiwn.

Mae'r lleoliad yn nodi'n effeithiol anghenion dysgu plant pan fyddant yn ymuno ac yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae'r lleoliad yn adolygu cynnydd plant yn rheolaidd. Felly, mae'r lleoliad yn targedu plant â chymorth ychwanegol yn dda. Mae'r staff yn trafod y rhain gydag asiantaethau priodol pan fo'r angen yn codi. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol i gefnogi plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r cyfarpar. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol ac amrywiol tu mewn i'r adeilad.

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos positif trwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agwedd sy'n cael ei fabwysiadu gan y staff. Mae pwyslais clir gan bawb ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae'r staff yn cyflawni hyn trwy ddefnyddio storïau penodol o bob cwr o'r byd.

Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau'n llwyddiannus tu mewn i'r adeilad i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Anogir y plant yn gyson i symud yn rhydd o gwmpas yr ardaloedd dysgu a chymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol. Mae'r adnoddau'n hygyrch i blant, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn llwyddiannus. Caiff adnoddau eu rhannu'n effeithiol rhwng gweithgareddau parhaus, tasgau ffocws a chyfleoedd i gyfoethogi'r dysgu.

Mae’r adeilad o ansawdd addas, yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda. Ar hyn o bryd mae'r lleoliad yn gwneud y defnydd gorau o'r ardal awyr agored gyfyng iawn, a phellach mae mynediad cyfyngol i’r ardd oherwydd problemau â'r tywydd a phryderon ag offer. Felly, nid yw'r defnydd o'r ardal tu allan yn effeithiol. Nid oes unrhyw her i blant y tu allan oherwydd y diffyg cyfleusterau ac adnoddau. Fodd bynnag, mae plant yn cael cyfleoedd da i gyflawni tasgau corfforol y tu mewn i'r adeilad fel dawnsio. Mae'r lleoliad yn defnyddio'r ardal tu allan ar gyfer tasgau cyfyngedig sy'n cynnwys dringo a cherdded gyda chefnogaeth ar gewyll.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae’r arweinydd yn hyrwyddo a cheisio cynnal gwelliannau. Mae’r arweinyddiaeth yn sicrhau fod deilliannau ar gyfer y plant yn briodol i’w hoedran a’u gallu. Mae'r staff yn derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae’r polisïau yn weithredol ac mae’r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel gweithredu gofynion y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.

Mae’r arweinydd a’r pwyllgor rheoli’n sicrhau bod staff yn deall eu rolau’n llawn ac maent yn cydweithio'n ddiwyd fel tîm. Maent yn defnyddio arweiniad asiantaethau allanol fel yr awdurdod lleol a'r Gymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru’n effeithiol. Mae'r arfer hwn yn sicrhau'r defnydd gorau o arbenigedd y staff. Mae’r arweinyddiaeth ofalgar yn gefnogol i’r holl staff. Mae'r arweinydd, staff a’r pwyllgor rheoli’n cynllunio’n bwrpasol er mwyn darparu profiadau diddorol i'r plant tu mewn i’r adeilad. Er enghraifft, trwy newid y ddarpariaeth ar gyfer y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd i gynnwys bwyty chwarae rôl gyda bwydydd cario a thrwy chwarae cerddoriaeth Tsieineaidd.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn defnyddio gwybodaeth berthnasol am y lleoliad i greu gwelliannau fel gwella cymhwysedd staff yn y Gymraeg drwy fynychu cyrsiau perthnasol. Mae ganddynt ffocws glir ar sicrhau cynnydd yn erbyn blaenoriaethau’r lleoliad. Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen ddefnyddiol. Mae blaenoriaethau synhwyrol ar gyfer gwella yn cael eu nodi drwy weithdrefnau hunanarfarnu clir. Mae prosesau cyson a gweithredol yn sicrhau bod adnoddau ar gael i gwrdd â’r amcanion gwella tu mewn i’r adeilad.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae’r hunanarfarnu’n cymryd ystyriaeth bwrpasol o farn plant a rhieni a gofalwyr trwy holiaduron buddiol. Mae'r lleoliad hefyd yn gwella ansawdd ei waith trwy gyngor yr awdurdod lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru. Mae hyn o fudd i ddatblygiad y lleoliad. Gall y pwyllgor rheoli a’r arweinydd ddangos yn glir sut maent wedi gwella’r ddarpariaeth dros amser, trwy fabwysiadu gwahanol strategaethau a derbyn cyngor gwerthfawr wrth eraill.

Mae’r arweinydd a’r pwyllgor rheoli’n wybodus am waith cyfredol y lleoliad. Maent wedi sefydlu trefniadau cyson i fonitro’r ddarpariaeth. Cyflawnir hyn trwy gydweithio’n effeithiol a'n ddyddiol. Mae’r holl staff yn rhannu syniadau’n synhwyrol ar sut i wella gwaith y lleoliad. Mae’r pwyllgor rheoli’n defnyddio’r cyllid yn effeithlon ar gyfer adnoddau mewnol a staffio priodol.

Mae’r meysydd i’w datblygu yn cael eu cydnabod yn dda fel yr angen i wella cyfleoedd i blant yn yr awyr agored a chyfleoedd i ddatblygu medrau TGCh y plant. Mae cysylltiadau clir rhwng yr hunanarfarnu a thargedau'r cynllun datblygu, sy’n ffocysu ar welliannau yn y lleoliad. Felly, mae diwylliant cadarnhaol o hunanarfarnu yn bodoli sy’n targedu gwelliannau yng ngwaith y lleoliad.

Mae’r staff yn agored i syniadau newydd ac yn barod i arbrofi gyda gwahanol ffyrdd o weithio. Er enghraifft, maent newydd fabwysiadu system newydd yr awdurdod lleol ar gyfer adnabod mannau cychwyn pob plentyn. Mae'r staff yn barod i dderbyn syniadau newydd, a awgrymwyd gan athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru. Er enghraifft, mae argymhellion yr awdurdod lleol ar sut i wella'r hunanarfarnu, trwy raddio gwaith y lleoliad yn erbyn meini prawf penodol, wedi effeithio gallu’r lleoliad i dargedu ei anghenion yn fwy llwyddiannus.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gweithio'n strategol gyda phartneriaid i wella darpariaeth a safonau a lles plant. Mae hyn yn arbennig o amlwg a buddiol drwy bartneriaeth y lleoliad â'r awdurdod lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru. Mae'r berthynas gadarnhaol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a swyddog y Gymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru yn herio a gwella gwaith y lleoliad.

Mae partneriaeth y lleoliad gyda'r ysgol yn faes y nodwyd fel targed ar gyfer datblygiad gan y lleoliad. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth y plant yn briodol. Mae'r lleoliad yn defnyddio cysylltiadau cymunedol yn effeithiol i gefnogi dysgu'r plant, sy'n cynnwys cymryd rhan yn llwyddiannus mewn gweithgareddau'r pentref. Mae'r staff yn gweithio ac yn cysylltu ag ystod dda o sefydliadau eraill, sy'n gwneud cyfraniad cryf i wella'r ddarpariaeth drwy weithgareddau i godi arian. Mae asiantaethau allanol yn cefnogi'r lleoliad gyda hyfforddiant, er enghraifft hyfforddiant cymorth cyntaf a chyrsiau diogelu, sy’n gwella ymwybyddiaeth y staff o faterion pwysig.

Mae’r staff yn cymryd camau gweithredol i gynnwys rhieni a gofalwyr ym mywyd y lleoliad. Mae hyn yn cynnwys mynd gyda'u plant ar deithiau i lefydd lleol o ddiddordeb, fel ar deithiau rheilffordd ac ymweliadau fferm. Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni a gofalwyr yn rheolaidd am bob agwedd o waith y lleoliad. Maen nhw'n cael eu hannog i gynnig eu barn eu hunain ar faterion i wella'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn gweithredu arnynt i sicrhau gwelliannau.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithlon ac mae'n anelu’n briodol i wella pob agwedd o waith y lleoliad.  Mae hyn yn galluogi staff i ddatblygu a rhannu eu gwybodaeth broffesiynol yn effeithiol.  Mae’r cynllunio strategol yn cefnogi adnoddau mewnol da a lefelau staffio effeithiol.  Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli’n llwyddo i sicrhau fod gan y lleoliad staff llawn amser â chymwysterau a hyfforddiant priodol.

Mae’r lleoliad yn rheoli ei adnoddau’n bwrpasol i gefnogi’r dysgu ac i greu gwelliannau yn y lleoliad.  Mae gan yr arweinydd a’r pwyllgor rheoli dealltwriaeth gadarn o’u cyllideb.  Maent yn blaenoriaethu eu gwariant yn unol â’r targedau ar gyfer gwella’n bwrpasol.  Mae’r lleoliad yn sicrhau bod defnydd arian yn cael effaith uniongyrchol ar gwella’r ddarpariaeth fewnol a chyflawniadau a lles y plant.

Er bod angen i’r lleoliad wella agweddau o’r addysgu a'r ardal awyr agored, mae'r ddarpariaeth gyffredinol ac ymroddiad yr arweinwyr a'r staff yn golygu bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr Arolygydd Cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |